

## Tonnau adlewyrchiol a phlygiant

BECA Popeth yn iawn Sara?

SARA O'n i'n meddwl basa hyn yn hawdd Beca. Dw i 'mond isio syrffio'r we.

BECA Syrffio'r we? Hei Sara, mae'r 90au 'di ffonio. Ma' nhw ishe'i **catchphrase** nhw nôl!

ADA Er mwyn syrffio, mae'n rhaid deall tonnau!

SARA O, wneith hyn helpu!

ADA Adlewyrchiad yw pan mae ton yn bownsio oddi ar arwyneb.

Wrth i don deithio tuag at glogwyn, mae'n taro'n erbyn y clogwyn, ac mae egni'r don yn bownsio'n ôl i'r môr. Mae'r tonnau yma yn taro'r clogwyn ar ongl o 90 gradd, ac felly yn adlewyrchu ar ongl o 90 gradd. Ond os yw'r tonnau'n taro'r clogwyn ar ongl o 45 gradd, maent yn adlewyrchu ar ongl o 45 gradd hefyd.

BECA Mae hynny'n ddiddorol iawn Ada, ond siarad am y we mae Sara. Dw i ddim yn credu taw dysgu am...

ADA Plygiant yw beth sy'n digwydd i don pan mae'n pasio drwy un cyfrwng i un arall. Pan mae ton yn rhyngweithio gyda chyfrwng mwy dwys, mae ei chyflymder yn arafu. Serch hynny, os yw ton yn rhyngweithio gyda'r cyfrwng dwys ar ongl, mae'r don yn arafu ac yn plygu.

Nid yw teithio drwy ddŵr dwfn yn effeithio ar y don, ond wrth iddi ryngweithio â'r dŵr bas, mae'r rhan yna o'r don yn arafu. Mae hyn yn achosi i'r don blygu. Cei di fynd i syrffio nawr.

BECA Paid â phoeni Sara, gad hyn i mi.

SARA Diolch Ada! Iawn, dw i'n codio'r feirws rŵan. Minik52, dw i angen i ti ddod o hyd i'r ecsbloit. Arnaxus, gosoda di ddrws cefn a bom rhesymeg. Iawn Beca?